

Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Awst 2018

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i'r Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau).

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

Mynegwn ein parodrwydd i gynorthwyo'r Panel mewn unrhyw ffordd fyddai'n ddefnyddiol wrth i'r gwaith pwysig hwn symud yn ei flaen.

1. Cefndir

- 1.1. Bu esblygiad graddol i gyrraedd y pwynt lle yr rydym ni heddiw, o Gynlluniau Addysg Gymraeg (dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993), i GSGAau anstatudol, i'r CSGAau statudol (dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013). Bu pob un o'r datblygiadau hyn yn bwysig ac yn gamau i gyfeiriad mwy cadarn a strategol o safbwynt cynllunio addysg cyfrwng Gymraeg, oddi fewn i'w cyd-destun ar y pryd.
- 1.2. Yn y cyfamser, mae'r cyd-destun polisi mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wedi datblygu'n gyflym ac erbyn hyn, mae lefel yr uchelgais (fel y'i nodir yn nogfen 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' a'r Rhaglen Waith 2017-21 sy'n cyd-fynd â hi) ar raddfa llawer uwch. Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn.
- 1.3. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r cyd-destun polisi mewn perthynas ag addysg yn ogystal wedi (ac yn parhau i) newid ar gyflymder; nodwn 'Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl', 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21', Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'r diwygiadau arfaethedig i'r sector trydyddol fel conglfeini.
- 1.4. Mae perygl gwirioneddol felly nad yw'r drefn bresennol o gynllunio ar gyfer addysg Gymraeg yn cydgorio'n ddigonol â'r dirwedd polisi newydd nac â lefel yr uchelgais cytunedig ar gyfer twf.
- 1.5. Yn ogystal, mae nifer o ymchwiliadau/adolygiadau dros y tair blynedd diwethaf wedi dwyn sylw at ddiffygion a gwendidau'r drefn bresennol o gynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg. Yn hytrach nag ail-restru'r gwendidau hynny yn yr ymateb hwn, cyfeiriwn at y dogfennau dan sylw (yn ogystal â'r Adolygiad Brys ei hun, wrth gwrs). Teg yw nodi bod tipyn o orgyffwrdd rhwng y casgliadau:
 - **Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** (Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2015)
 - **Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth/Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016)
 - **Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol** (Estyn, Medi 2016)Y syndod, mewn gwirionedd, yn sgil canfyddiadau'r dogfennau uchod yw na fu gweithredu i ddiwygio'r drefn tan nawr.
- 1.6. **Yn sgil yr uchod, mae UCAC o'r farn bod yr amser wedi dod i gymryd y cam nesaf ar y llwybr, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes, ac yng ngoleuni'r hyn sydd wedi'i nodi'n glir ac yn gyson fel diffygion y system bresennol, er mwyn cefnogi uchelgais ac agenda polisi ehangach Llywodraeth Cymru.**

2. Y camau nesaf: Deddfu

- 2.1. Am fod diffygion y drefn bresennol yn niferus, yn ddifrifol, ac yn systemig, ac am fod angen newid gêr yn sylweddol iawn i wireddu polisiâu cyfredol Llywodraeth Cymru, mae UCAC yn cefnogi ail-edrych ar y ddeddfwriaeth gynradd mewn perthynas â'r CSGAau.
- 2.2. Yn wir, teimlwn mai **deddfu o'r newydd fyddai orau (Deddf Addysg Gymraeg)** yn hytrach na cheisio cymhwyso addasiadau mor sylweddol i'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dyna fyddai'r ffordd orau o weithredu'r newidiadau ar y raddfa sydd eu hangen.

- 2.3. Mae 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21' yn nodi'n glir (ac yn gywir, ym marn UCAC) bod angen sicrhau (a) yr arweinyddiaeth ofynnol (b) y capasiti ac (c) y seilwaith os am fwrw'r maen i'r wal. Credwn y byddai deddfu yn profi parodrwydd y Llywodraeth i ymgymryd â'r arweinyddiaeth ofynnol, ac yn ei ganiatáu, i raddau helaeth, i osod y seilwaith a fyddai'n arwain at adeiladu a chynyddu capasiti o fewn y system.
- 2.4. Byddai deddfu'n caniatáu:
- gosod **rhuglder yn y Gymraeg** fel disgwyliad arferol ('norm') yn y system addysg
 - rhoi **hawl i addysg cyfrwng Gymraeg**
 - gosod **cyfrifoldebau statudol** ar wahanol haenau o'r system i sicrhau nid yn unig cynllunio strategol effeithiol, ond gweithredu bwriadus yn ogystal
 - sicrhau **atebolrwydd** priodol ac effeithiol ar bob lefel
- 2.5. Mi fyddai gwneud hynny yn cael gwared ar y rhagdybiaeth sydd wedi plagio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg (gan gynnwys addysg Gymraeg) ar hyd y blynyddoedd, bod angen ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr un ffordd – yn hytrach na bod angen **deddfu o blaid y Gymraeg er mwyn sicrhau cydraddoldeb a thwf**. Bu i hynny lesteirio ymdrechion i hyrwyddo addysg Gymraeg yn, er enghraifft, y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
- 2.6. Os mai'r bwriad yw blaenoriaethau Bil y Gymraeg, efallai y dylid ystyried a oes modd/a fyddai'n briodol cynnwys unrhyw elfennau'n ymwneud ag addysg Gymraeg. Buodd pwyslais yn y Papur Gwyn ar gyfrifoldebau cynllunio ieithyddol a allai fod yn berthnasol. Ac mi fyddai'n werth ystyried, os crëir Comisiwn (neu os parheir gydag un Comisiynydd) a fyddai'n briodol rhoi rôl herio/monitro iddo mewn perthynas ag addysg Gymraeg (gweler 5.6 a 5.7 isod).

3. Y camau nesaf: Is-ddeddfwriaeth

- 3.1. Sylweddolwn fodd bynnag ein bod mewn cyfnod eithriadol o safbwynt pwysau ar amser deddfwriaethol yn sgil dyfodiad a chymhlethdod tebygol y broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Felly – heb ildio unrhyw obaith o ddeddfu – cynigiwn ffordd amgen ymlaen, *petai raid*. Mi allai fod yn ddull o sicrhau gweithredu a chryfhau yn y tymor byr, gan dal i anelu at ddeddfu cynradd cyn gynted ag y daw cyfle.
- 3.2. Yr is-ddeddfwriaeth fwyaf amlwg ar gyfer ei ddiwygio yw:
- **Rheoliadau Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Gymraeg (Cymru) 2013**
Gan gynnwys:
 - disodli'r cysyniad o 'fesur y galw' gyda chynllunio ar gyfer twf; fel y nodwyd yn y 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg': "Dengys tystiolaeth y gwerthusiad nad yw'r cynllunio ar sail ymateb i'r galw, sef un o egwyddorion y Strategaeth, o anghenraid yn sicrhau twf yn y ddarpariaeth...dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei disgwyliadau ar bartneriaid gweithredu i flaengynllunio'n bwrpasol i gynyddu darpariaeth a, lle'n briodol, symbylu twf addysg cyfrwng Gymraeg."
 - adolygu'r deilliannau (o bosib i gyd-fynd yn rhannol â'r dangosyddion yn 'Y Gymraeg mewn Addysg: cynllun gweithredu 2017-21) a chynnwys deiliant Blynyddoedd Cynnar/cyn-statudol
 - ail-ystyried amserlen cynlluniau er mwyn ysgogi ymagwedd gwirioneddol strategol, hynny yw, tymor hir, gyda cherrig milltir cyson
- 3.3. Dyma restr o *enghreifftiau* o is-ddeddfwriaeth/canllawiau statudol eraill y gellid ystyried eu diwygio er mwyn gwneud gwelliannau yn y tymor byr; gellid yn bendant ymhelaethu ar y rhestr:
- **Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Hydref 2011**
 - **Y Cod Derbyn i Ysgolion – Gorffennaf 2013**
 - **Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion – Rhagfyr 2013**

- **Gorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014**
- **Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir – Mai 2014**
- **Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol – Mehefin 2014**
 - Mae cymalau fel “Dylid trin ffafriaeth i’r naill iaith neu’r llall yr un fath” yn symptomatic o’r broblem fwy sylfaenol y disgrifiwn ym mharagraff 2.5 uchod; mae’r broblem sylfaenol yn y ddeddfwriaeth gynradd, sef Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, ond mae’r cymal hwn yn ychwanegu dehongliad a chyfarwyddyd sy’n gwaethygu’r sefyllfa ymhellach; os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch twf addysg Gymraeg, ni ddylid trin y dewis i gael addysg cyfrwng Cymraeg fel ‘ffafriaeth’; rhaid sicrhau bod y seilwaith (a’r hawliau) cyfatebol yn eu lle, e.e. i gludiant am ddim
- **Cod Trefniadaeth Ysgolion – Awst 2014** (diwygiadau eisoes yn yr arfaeth)
- **Cynlluniau Datblygu Ysgolion – Gorffennaf 2015**
- **Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth – Awst 2015**

4. Argymhellion yr Adolygiad Brys

- 4.1. Nid oes unrhyw un o’r argymhellion y byddai UCAC yn anghydweld â nhw. Byddai’r dull o’u gweithredu yn amrywio yn ddibynnol ar ba un o’r llwybrau uchod (deddfwriaeth gynradd/is-ddeddfwriaeth) fyddai’n cael ei ddewis, ond manylwn isod ar ambell thema ble nad ydym wedi’i chrybwyll eisoes uchod.

Buddsoddiad cyfalaf

- 4.2. Cytunwn fod angen creu perthynas sefydlog, hirdymor agosach rhwng cynllunio ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg â chronfeydd cyfalaf.

Aelodaeth, rolau a chyfraniad disgwyledig y fforymau sirol

- 4.3. Cytunwn fod angen cryfhau’r elfen hon o’r broses.

Blynyddoedd cynnar

- 4.4. Mae pwyslais ar addysg cyn-statudol, gan gynnwys y cynnig gofal plant newydd, yn gwbl greiddiol i lwyddiant gweddill y system; fan hyn y mae’r potensial fwyaf am dwf ledled Cymru. Mae’n cyd-fynd yn hwylus iawn gyda’r angen i ehangu darpariaeth cyn-statudol er mwyn ceisio dileu anfantais a ddaw yn sgil tlodi a difreintedd. Un newid a allai wneud gwahaniaeth sylfaenol fyddai cynllunio i sicrhau bod gofal cofleidiol yn amgylchynu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg rhan amser; ar hyn o bryd mae ysgolion â dosbarth meithrin yn dueddol o fod mewn lleoliadau (mwy trefol) ble mae’n rhwydd i rieni sy’n gweithio gael mynediad at ofal cofleidiol i lenwi gweddill y diwrnod gwaith. Mae lleoliadau meithrin (e.e. cylchoedd meithrin), sy’n gallu bod (ond ddim o reidrwydd) ynghlwm ag ysgolion nad oes ganddynt ddosbarth meithrin, yn aml mewn lleoliadau (e.e. pentrefi) ble nad oes gofal cofleidiol ar gael. Golyga’r diffyg gofal cofleidiol bod rhieni’n dewis naill ai troi cefn ar y cylch meithrin (ac felly’r ysgol leol), neu droi cefn ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn gyffredinol. Hwylustod i rieni yw un o’r prif allwedd.
- 4.5. Yn ogystal, mae’r Blynyddoedd Cynnar, yn cynnig cyfleoedd am addysg (Gymraeg) i’r teulu, gyda sesiynau codi ymwybyddiaeth a gwersi Cymraeg ar lefel addas.

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 4.6. Mae dirfawr angen ailedrych ar y ddogfen wybodaeth hon a fabwysiadwyd nôl ym mis Hydref 2007 a chroesawn yr ymrwymiad yn ‘Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21’ i wneud hynny erbyn gwanwyn 2019.
- 4.7. Barn UCAC yw nad oedd y ddogfen wybodaeth a’r diffiniadau ynddi yn addas at y pwrpas adeg ei chyhoeddi, yn bennaf am nad yw’n rhoi darlun gonest na dealladwy i rieni o’r deilliannau y gellid eu disgwyl o safbwynt rhuglder yn y Gymraeg o fynychu’r gwahanol gategorïau o ysgolion. Dywedodd ymateb Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (2016) i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y CSGAau bod “gwaith paratoadol wedi dechrau” i “adolygu effeithiolrwydd” y canllawiau

hyn, ond nid ydym yn ymwybodol o hynt yr adolygiad hwnnw.
Cytunwn yn ogystal bod angen symleiddio a hwyluso'r broses statudol ar gyfer newid 'categori' ieithyddol ysgol os yw'n symud ar hyd y continwrm ieithyddol tuag at Gymreigio.

Darpariaeth ôl-16

- 4.8. Caiff ei dderbyn yn gyffredinol mai cadarnle darpariaeth Gymraeg ôl-16 dros y blynyddoedd fu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion. Fodd bynnag, ni all dosbarthiadau chwech gynnig popeth i bawb, ac mae tynfeydd cynyddol ac amrywiol tuag at sefydliadau addysg bellach.
Byddai'n fanteisiol felly sicrhau bod unrhyw gyfundrefn ddiwygiedig yn ymdrin yn uniongyrchol â'r sector Addysg Bellach, cyn belled ag y mae statws cyfreithiol y sector a'i sefydliadau'n caniatáu. Mae hyn yn cynnwys prentisiaethau a dysgu yn y gweithle ble mae dirfawr angen cynyddu'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn cyflenwi gofynion yr economi. Mae angen dealltwriaeth o bwysigrwydd a natur yr 'economy gymysg' sy'n bodoli ar gyfer darpariaeth ôl-16, gan gynnwys y rhyngberthynas (a'r tensiynau) rhwng dosbarthiadau chwech a cholegau. Rhaid sicrhau bod diffiniad digon gwydn o ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn y sector i deilyngu unrhyw gyllid penodol a ddaw yn ei sgil, gyda gofal arbennig mewn perthynas â darpariaeth â'r label 'dwyieithog'.
- 4.9. Am nad yw'r sector Addysg Bellach yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn CSGAau (ond yn hytrach yn llunio'u Cynlluniau Strategol eu hunain), nid yw'r sefydliadau dan sylw yn wynebu'r un lefel o 'her' ag y mae'r Awdurdodau Lleol wedi gwneud yn fwy diweddar mewn perthynas â'u cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg. Mae angen mynd i'r afael â hyn os am weld twf.
Nodwn fod prif ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Estyn 'Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach' (Mehefin 2017) yn werthfawr dros ben ac anogwn weithredu ar eu sail.
- 4.10. Gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymestyn ei rychwant i gynnwys y sector Addysg Bellach, a gyda'r trafodaethau ynghylch creu sector trydyddol fwy cydlynus drwy sefydlu Comisiwn Trydyddol, rhagwelir cyfleoedd gwerthfawr i sicrhau mwy o gydlynllunio ac ymagwedd llawer fwy strategol ac uchelgeisiol. Bydd angen gwyliadwriaeth i sicrhau bod datblygiadau'r sector trydyddol yn golygu twf o ran darpariaeth Gymraeg; prydera UCAC bod potensial am ddifrod i strwythurau (dosbarthiadau chwech yn arbennig) sydd eisoes yn llwyddiannus a hynny heb enillion mewn meysydd eraill os caiff y polisi ei lunio a'i weithredu heb ddealltwriaeth na phwyslais digonol ar y Gymraeg. Bydd angen sicrhau ymwybyddiaeth o werth ychwanegol, o safbwynt meithrin sgiliau a hyder ieithyddol, darpariaeth Gymraeg oddi fewn i sefydliad cyfrwng Cymraeg fel cyd-destun dysgu o'i gymharu â darpariaeth Gymraeg (neu ddwyieithog) oddi fewn i sefydliad 'dwyieithog' ble mae tueddiad i'r Saesneg oruchafu. Mae 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21' yn canolbwyntio ar y sector orfodol yn unig. Awgrymwn fod angen dogfen gyfatebol ar gyfer y sector addysg bellach, neu'r sector ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd.
Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod twf darpariaeth Gymraeg yn ystyriaeth gwbl ganolog wrth ddatblygu a gweithredu pob agwedd o bolisi yn y maes ôl-orfodol; bydd arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru'n hanfodol yn hyn o beth.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

- 4.11. Mae'r adolygiadau/ymchwiliadau amrywiol, gan gynnwys yr Adolygiad Brys, wedi tynnu sylw at y diffyg gwybodaeth a data ynghylch:
- y gweithlu sy'n gallu cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg prif ffrwd a/neu arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
 - y ddarpariaeth sydd ar gael, ac unrhyw fylchau
- O ganlyniad, mae diffyg cynllunio strategol i sicrhau gweithlu a darpariaeth ddigonol, ac mae'n glir bod y CSGAau wedi bod yn aneffeithiol yn hyn o beth.
- 4.12. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018), a'r Cod arfaethedig yn cynnig cyfleoedd i wella'r sefyllfa wantan bresennol. Unwaith eto, bydd arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru'n hanfodol, a chroesawn yr ymrwymadau yn 'Y Gymraeg mewn Addysg: cynllun gweithredu 2017-21' i "sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyntaf wrth gynllunio a darparu

gwasanaethau i gefnogi ein dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)” ac i “weithio gyda phartneriaid i weithredu'r system ADY newydd, gan gynnwys drwy ddatblygu Côd ADY newydd, a sicrhau bod yr agweddau ar y Gymraeg yn glir ac yn hollol integredig.”

Cynllunio'r gweithlu

- 4.13. Mae'r adolygiad brys yn ddeifiol ynghylch rôl y CSGAau mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu addysg Gymraeg. Mae'n faes sydd wedi bod yn wendid yng Nghymru mewn perthynas â'r gweithlu addysg yn gyffredinol, ac mae'n syfrdanol mai dim ond yn ddiweddar y gwelwyd unrhyw gamau i gymryd ymagwedd fwy strategol at y sefyllfa. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cynnig dull y gellid ei efelychu'n ehangach, ac mi fyddai'n ddefnyddiol sicrhau bod deddfwriaeth a gofynion statudol yn tanategu strategaeth gynllunio (gan gynnwys casglu data) ehangach; bydd gosod targedau a sicrhau a gweithredu bwriadus i'w cyrraedd yn anhepgorol.
- 4.14. Mawr obeithiwn y bydd y gyfundrefn newydd ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) o fis Medi 2019 yn fwy cadarn a strategol mewn perthynas â chynhyrchu athrawon sy'n medru dysgu'r Gymraeg/dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan UCAC amheuan nad yw'r trefniadau newydd yn mynd yn ddigon pell, ac yn teimlo nad oedd ystyriaethau mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu addysg Gymraeg yn ddigon canolog wrth lunio'r polisi nac wrth weithredu'r broses; mae hynny yn ei hun yn awgrymu problemau systemig ehangach (gweler 4.16-4.18 isod). Mae'n bosib y bydd angen gweithredu ychwanegol buan i'r system AGA i sicrhau cyflenwad uwch o athrawon â sgiliau Cymraeg (e.e. ystyried cynnwys TGAU Cymraeg fel un o'r cymwysterau mynediad posib – hynny yw, TGAU Cymraeg NEU Saesneg).
- 4.15. O safbwynt dysgu proffesiynol o fewn y gweithlu ysgol bresennol, mae 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21' yn cynnig gweledigaeth a chmau gweithredu gwerthfawr.

Arweinyddiaeth a statws o fewn Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol

- 4.16. Un o ganfyddiadau allweddol y 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' oedd nad “yw'r weledigaeth wedi'i gwreiddio mewn ffordd gyson ar draws yr holl bartneriaid gweithredu ac ar hyd gwahanol haenau'r gyfundrefn addysg, o Lywodraeth Cymru i lawr i awdurdodau a darparwyr.” Os na all Llywodraeth Cymru wreiddio'r weledigaeth o fewn ei strwythurau ei hun, go brin y caiff llwyddiant wrth geisio gwneud hynny mewn mannau ac ar lefelau eraill.
- 4.17. Mae'n gwbl allweddol fod strwythurau a phenodiadau'n adlewyrchu statws a blaenoriaeth y polisi; nid yw hynny wedi bod yn wir. Ni ddylai bod lle i gamddeall ar unrhyw lefel o lywodraeth difrifoldeb yr ymrwymiad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a thwf addysg Gymraeg. Rhaid iddo fod yn ystyriaeth gwbl ganolog, naturiol o unrhyw ddatblygiad polisi mewn unrhyw faes (ac nid yn gwestiwn safonol ar ddiwedd ymgynghoriadau yn unig). Golyga hynny, lefel uchel o ymwybyddiaeth ieithyddol (fel isafswm), a nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, ymhlith y gwasanaeth sifil/swyddogion llywodraeth leol – gan gynnwys ar y lefelau uchaf. Unwaith eto, dywed y 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg': “Cesglir nad yw gweledigaeth na dylanwad y Strategaeth wedi'u prif ffrydio'n ddigonol i wrthsefyll dylanwad datblygiadau allanol eraill. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei gweledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal a'i hatgyfnerthu wrth weithredu polisïau ym maes addysg...”. Mae hyn yn wir am lywodraeth leol hefyd (gan gynnwys y consortia rhanbarthol), gyda'r angen i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio wrth lunio polisïau ym mhob maes.
- 4.18. Yn ogystal, mae angen gwell dealltwriaeth ar lefel Llywodraeth Cymru o'r heriau amrywiol sy'n wynebu gwahanol awdurdodau lleol ac sy'n effeithio ar eu gallu i gynllunio'n strategol mewn perthynas â'r Gymraeg; gallai hyn fod yn fater, yn rhannol, o wella a ffurfioli sianeli cyfathrebu.

5. Materion eraill

Cludiant

- 5.1. Mae'n annerbyniol na all dewis addysg cyfrwng Cymraeg fod yn rhan o'r diffiniad o 'ysgol addas agosaf'; canlyniad hynny yw gadael cludiant am ddim i ddisgresiwn Awdurdodau Lleol. Nid yw'r

gofyniad i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg' (Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Adran 10) yn agos at fod yn ddigon cadarn. Er nad oes unrhyw Awdurdod Lleol, hyd y gwyddom ni, wedi peidio talu am gludiant i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg (hyd yma), mae sawl un wedi trafod y posibilrwydd cyn ei wrthod. Mae'r ffaith bod ganddynt yr hawl i wneud yn gadael dysgwyr – ac ysgolion - mewn sefyllfa fregus, ac yn dangos diffyg asgwrn cefn o ran gwarantu hawliau. Mae UCAC o'r farn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyngor cyfreithiol gwangalon iawn yn y gorffennol mewn perthynas â'r hyn sy'n bosib o fewn y gyfraith o ran sicrhau hawl i gludiant at addysg Gymraeg.

- 5.2. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â chludiant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn eithriadol o fymrwyl ac anghyson, ac mae'n gwaethgu'n gyflym yn sgil y sefyllfa gyllidebol amhosib sy'n wynebu Awdurdodau Lleol. Mae rhai colegau'n cynnig cludiant am ddim, neu ar ostyngiad sylweddol (sydd i'w gymeradwyo); ond pan na all awdurdodau lleol gynnig yr un telerau ar gyfer addysg ôl-16 mewn ysgolion, caiff myfyrwyr eu denu i'r colegau sydd gan amlaf yn golygu gadael darpariaeth gyfrwng Cymraeg.
- 5.3. Gwyddwn y byddai newid hyn yn golygu diwygio deddfwriaeth gynradd (Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008), ond teimlwn yn gryf bod hyn yn anhepgorol – o ran dangos arweinyddiaeth, sefydlu egwyddor sylfaenol, a chefnogi'r egwyddor honno'n ymarferol.

Cyllid

- 5.4. Nid yw ariannu ar gyfer darpariaeth Gymraeg mor dryloyw ac amlwg ag y bu, gyda diflaniad Grant y Gymraeg mewn Addysg, cyfuno gwahanol grantiau i un talpswm, ac arian naill ai'n mynd yn uniongyrchol i'r consortia rhanbarthol neu'n cael ei ddirprwyo iddynt gan yr awdurdodau lleol.
- 5.5. Yr hyn sy'n para'n wir yw'r angen am gyllido digonol os am wireddu'r weledigaeth a'r uchelgais, cyllid sy'n ddigonol i alluogi'r partneriaid gweithredu i gwrdd â'u targedau ac i ymateb i flaenoriaethau polisi. Soniwyd eisoes am gludiant ym mharagraffau 5.1-3 uchod; mae addysg drochi i hwyrdyffodiaid, ac athrawon bro/athrawon ymgynghorol y Gymraeg yn elfennau pwysig eraill o'r pictiwr nad oes modd ei gynnal heb gyllid digonol (ac sydd eisoes yn crebachu dan bwysau cyllidebol). Mae hyfforddiant (boed yn gysiau Sabothol, neu'n ddatblygiad proffesiynol o fathau eraill) i'r gweithlu addysg cyfan yn enghraifft arall.

Her, craffu ac atebolrwydd

- 5.6. Fel dywedodd y 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg': "mae angen sicrhau bod cynnydd yn cael ei herio gan uwch swyddogion a bod yr holl bartneriaid gweithredu yn cael eu dal yn atebol am eu cyfraniadau at y targedau." Cytunwn mai un o wendidau'r system fel y bu hyd yma yw'r diffyg monitro, her ac atebolrwydd. Mae dirfawr angen i'r rhain fod yn rhan ganolog (ac effeithiol) o'r system yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei drefnu, braidd yn fymrwyl, y tu allan i brif fecanweithiau'r system. Rydym yn falch iawn bod Cadeirydd y Panel wedi gwneud y gwaith y bu iddo ei wneud mewn perthynas â'r CSGAau diweddaraf, ac yn arwain y gwaith 'Cam 2'. Fodd bynnag, rhaid cael ymagwedd fwy systemig wrth symud ymlaen.
- 5.7. Nid yw UCAC o'r farn mai Uned y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru ddylai fod â'r cyfrifoldeb, yn rhannol am nad oes gan yr Uned y capasiti angenrheidiol, ac oherwydd y gallai bod gwrthdaro buddiannau. Tybed a ellid rhoi rhywfaint o rôl i Estyn, sydd eisoes yn arolygu awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol? Neu mi fyddai modd ystyried rôl i Gomisiynydd/Comisiwn y Gymraeg.
- 5.8. Rydym yn falch o nodi'r paragraff yn 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21' sy'n datgan mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw "Sicrhau bod datblygiad y Gymraeg yn ein system addysg yn cael ei gynnwys fel rhan ganolog o'r fframwaith asesu a gwerthuso newydd ar gyfer datblygu a gwella pob rhan o'r system." Mi fydd hynny'n gymhelliant pwysig oddi fewn i'r system.
- 5.9. Un cwestiwn pwysig arall sy'n codi yng nghyd-destun atebolrwydd a her yw rhaniad y cyfrifoldebau rhwng yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Mae'n amlwg, yn statudol, mai gan awdurdodau lleol y mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd; fodd bynnag, yn gynyddol mae ariannu, cynllunio a gweithredu'n digwydd ar lefel rhanbarthol. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r materion hyn dan unrhyw drefn ddiwygiedig.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru